

Y TYST

Sefydlwyd 1867 Cyfrol 155 Rhif 4 Ionawr 27, 2022 50c.

Y CANGHELLOR A'R CYFUNDEB

'Nôl yn yr hydref fe wnaeth Cyfundeb Gorllewin Caerfyrddin ysgrifennu at Aelodau Seneddol lleol ynglŷn â bwriad yr HSBC i godi tâl ar gyfrif banc elusennau. Maent yn mynnu £60 y flwyddyn, yn ogystal â 40c. am fancio sic, a 0.4% am bob taliad mewn neu allan o'u cyfrifon.

Daw hyn ar adeg anodd dros ben i elusennau o bob math, gan gynnwys Cymorth Cristnogol, gan na fu'n bosibl iddynt gynnal y gweithgarwch codi arian arferol oherwydd cyfyngiadau Covid-19 a hynny am yr ail flwyddyn yn olynol. Ar y llaw arall, fe wnaeth yr HSBC elw cyn treth o £12 biliwn yn 2021.

Ymateb y gwleidyddion

Mewn ateb i'r Cyfundeb, dywedodd Ben Lake AS Ceredigion iddo gyfarfod â swyddogion HSBC, ond nad oedd troi arnynt. Y gobaith nawr yw perswadio'r tri banc mawr arall i



beidio a dilyn HSBC. Yn aml, pan mae un dafad yn neidio trwy dwll yn y clawdd, mae eraill yn dilyn! Addawodd Simon Hart AS Gorllewin Caerfyrddin a De Penfro y byddai'n codi'r mater gyda'r Trysorlys. Ddechrau'r mis hwn, cafwyd ymateb gan neb llai na Rishi Sunak, Canghellor y Trysorlys. Ond yn anffodus, siomedig oedd y cynnwys. Dyma rannau o'r llythyr dderbyniwyd trwy law Mr Hart.

'Diolch am eich e-bost oedd yn cynnwys gohebiaeth gan Alun Lenny, Cydlynnydd Cenhadol Cyfundeb Eglwysy Annibynnol Gorllewin Caerfyrddin, ynglŷn â chost bancio i elusennau.

'Mae'r penderfyniadau ynghylch pa wasanaethau sy'n cael eu cynnig ac i bwy yn parhau i fod yn benderfyniadau masnachol i fanciau a chymdeithasau adeiladu. Yn yr un modd, mae penderfyniadau sy'n ymwneud â phrisio gwasanaethau, gan gynnwys taliadau cyfrif, hefyd yn benderfyniadau masnachol i'r sefydliadau hyn. Felly, er ein bod yn cydnabod ac yn gwerthfawrogi rôl bwysig y sector elusennol, byddai'n amhriodol inni ymyrryd yn y penderfyniadau hyn.

'Efallai y byddai Mr Lenny yn hoffi chwilio am gyfrifon banc amgen a fyddai o fudd iddynt. Mae'r adnodd canfod Cyfrif Cyfredol Busnes (BCA) a ddatblygwyd gan UK Finance wedi'i gynllunio i helpu busnesau i gymharu'r ystod lawn o gyfrifon banc sydd ar gael,

parhad ar dudalen 2


Nadolig 'hybrid' yn yr Hendy-gwyn

Mae'r cyfnod hwn yn cael ei ddisgrifio fel cyfnod 'hybrid' i'r capeli, sef cyfnod pan rydym yn cael cyfuniad o wasanaethau yn y capeli yn ogystal â gwasanaethau ar-lein ar Zoom. Ac fel hynny roedd hi yn y Tabernacl, Hendy-gwyn y Nadolig yma, gydag un o'r gwasanaethau Nadolig yn y capel a'r llall yn cael ei gynnal trwy Zoom.

Y Sul cyn y Nadolig braf oedd gweld 15 o blant yn y capel wrth i ni gael gwasanaeth dan ofal y plant. Ni chafwyd yr actio a'r gwisgo lan arferol eleni ond yn hytrach cafwyd y plant yn adrodd stori'r geni o'u seddi. Er gwaethaf y Covid roedd Siôn Corn wedi llwyddo i adael anrhegion ar gyfer pob plentyn. Ac yn y llun gwelir y plant gyda'u hanrhegion.

Yna, ar noswyl Nadolig cafwyd gwylnos trwy Zoom dan ofal yr oedolion ifanc gyda 18 o oedolion ifanc ac ieuenctid yn cymryd rhan. Teitl yr wylnos eleni oedd 'Greta Thunberg a Mair, mam Iesu: dwy annibynwraig a dau rebel' a chafwyd gwasanaeth arbennig gyda'r oedolion ifanc yn gwneud eu gwaith yn ardderchog.

Guto Llewelyn



Y CANGHELLOR A'R CYFUNDEB – parhad

gan gynnwys y ffioedd a godir gan bob darparwr cyllid, a dod o hyd i gynhyrchion sy'n gweddu orau i'w hanghenion.'

Yna, mae'r llythyr yn cyfeirio at: www.betterbusinessfinance.co.uk/accoun-opening

O gymryd cyngor y Canghellor ac agor y ddolen uchod, methais â chanfod sut y gallai elusen wneud defnydd ohono. Mae'n amlwg mai adnodd ar gyfer busnesau masnachol a phartneriaethau ydyw. Mae'n ymddangos nad oedd Mr Sunak yn ymwybodol o hynny.

Grym y Cyfundebau

Mae'r ffaith bod Cyfundeb wedi llwyddo i ddwyn mater i sylw unigolyn o statws Canghellor y Trysorlys, a chael ymateb personol ganddo, yn dangos bod modd i'n llais ni gael ei glywed. Yn fy e-bost i'r Aelodau Seneddol fe wnes i sôn fod y Cyfundeb yn cynrychioli 2,500 o Gristnogion. Prin y byddai'r un gwleidydd lleol anwybyddu corff o'r faint yna! Er bod y canlyniad yn un siomedig y tro hwn, fe ddaw cyfleon eto ar faterion eraill.

Mae'r esiampyl fach hon yn profi ein bod ni fel Cristnogion ac eglwysi Annibynnol yn dal i fod â dylanwad pan fyddwn yn mynegi pryder neu ddigofaint am amrywiol fathau o angen neu anghyfiawnder mewn cymdeithas a'r byd. Ond, ydy'r Cyfundebau yn ymwybodol o'r dylanwad sydd gennym, yn ddigon effro i agor ein llygaid i'r sefyllfa o'n cwmpas, a bod yn barod i ddefnyddio'r dylanwad yna fel cymunedau o eglwysi Annibynnol ar draws Cymru? Neu ydyw ein gwaith yn gorffen gyda'r Fendith ar ddiwedd Cwrdd Chwarter?

Alun Lenny

Coleg yr Annibynwyr

Cynhelir cyfarfod Tanysgrifwyr Coleg yr Annibynwr Cymraeg am 2.00 y.p. dydd Llun 14 Chwefror ar Zoom. Os hoffech gael y ddolen cysylltwch gyda'r Parch. Trefor Jones-Morris trwy: jonesmorrist@gmail.com

ATGOFION AM ARCHESGOB DESMOND TUTU

Yng Nghymanfa Gyffredinol Cyngor Eglwysi'r Byd yn Vancouver ym 1983 y deuthum ar draws Esgob Desmond Tutu gyntaf. Roedd wedi derbyn gwahoddiad i annerch y gymanfa a gynhaliwyd ym Mhrifysgol British Columbia. Roedd yna ddisgwyll eiddgar am ei ymweliad, yn naturiol. Fodd bynnag, pan ddaeth yr amser iddo deithio o Dde Affrica i Ganada, gwrthodwyd ei fisa gan lywodraeth De Affrica. Roedd yna lawer o siom, wrth gwrs, gan fod yr Esgob Desmond yn enwog nid yn unig am ei safiad yn erbyn y drefn apartheid yn Ne Affrica ond am ei gydsafiad â phawb oedd yn dioddef anghyfiawnder a gormes ledled y byd. Yna un noson gwnaed cyhoeddiad. Roedd wedi cael teithio a byddai'n annerch y Cynulliad am hanner nos y noson honno. Aeth mwy na 1000 ohonom (gan gynnwys Derwyn Morris Jones a minnau) yn eiddgar i'r babell addoli enfawr i'w glywed yn siarad (*gweler y llun*). Roedd yn un o brofiadau mwyaf cofiadwy fy mywyd. Roedd, fel bob amser, yn ysbrydoledig, yn heriol ac yn llawn gobaith am ddyfodol Duw i Dde Affrica ac i'r ddynoliaeth. Soniodd am lythyr a dderbyniodd gan leianod mewn cwfaint mewn coedwig yn Alaska yn ei sicrhau eu bod yn gweddïo drosto bob dydd. 'Roedden nhw'n gweddïo drosof bob dydd mewn coedwig yn Alaska! Pa obaith sydd gan yr Arlywydd Botha yn wyneb hynny?'

Johannesburg, De Affrica

Ddwy flynedd yn ddiweddarach, ym 1985, ymwelais â De Affrica ar ran Cyngor Eglwysi Prydain, a oedd yn ceisio sicrhau presenoldeb Prydeinig rheolaidd mewn treialon bradwriaeth arweinwyr Cristnogol yn Pretoria a Pietermaritzburg. Erbyn hynny, roedd yr Esgob Tutu wedi derbyn gwahoddiad i ymweld â Chymru i fod yn brif westai yng Ngŵyl Teulu Duw ym 1986 (yr oeddwn yn gyfrifol am ei threfnu) i ddathlu undod Cristnogol yng Nghymru. Llwyddais i ymweld ag ef yn ei gartref yn Johannesburg i drafod trefniadau ac roedd hefyd yn bresennol pan fynychais gwyllgor gweithredol Cyngor Eglwysi De

Affrica (yr oedd wedi bod yn Ysgrifennydd Cyffredinol ohono). Ar yr ail ddiwrnod, bu'n rhaid atal y cyfarfod am ychydig oriau oherwydd bod ymosodiad treisgar wedi digwydd yn un o ardaloedd y ddinas, un o'r *townships*.

Roedd gangiau'n bygwth lladd pobl trwy osod teiars o amgylch eu gyddfau, eu dowsio â phetrol a'u rhoi ar dân. Aeth yr Esgob Desmond, Dr Alan Boesak (ymgyrchydd gwrth-apartheid amlwg iawn arall) ac ychydig o rai eraill draw i'r dreffan, gan roi eu hunain mewn perygl mawr,

i geisio tawelu'r trais ac arbed bywydau. Dyma oedd eu galwad Gristnogol; roedd yn rhan o'u tystiolaeth gostus yn erbyn arswyd apartheid ac o blaid y frwydr ddi-drais am heddwch a chymod mewn gwlad wedi'i rhwygo.

Yr ŵyl fawr gofiadwy

Cynhaliwyd Gŵyl Teulu Duw yn Llanellwedd ar 24 Mai 1986. Yr Esgob Tutu oedd y prif westai. Gyrrais i fyny i Faes Awyr Hreathrow i'w gasglu a dod ag ef yn ôl i Gymru. Daeth yr Uwchgaptan Mervyn Woodman o Fyddin yr Iachawdwriaeth, a oedd yn Llywydd Cyngor Eglwysi Cymru ar y pryd, gyda mi ac wedi cyrraedd Heathrow buom yn disgwyll am yr Esgob Tutu wrth y glwyd yn Nherfynell 4. Gwelsom ef yn cerdded trwodd ac es i i'w groesawu, gan gymryd ei droli bagiau oddi wrtho. Cafodd y foment hon ei dangos ar y newyddion y noson honno, ac roedd fy ngwraig, Pat, a oedd yn gwylio gartref, yn methu deall pam wnes i fynnu cymryd y troli oddi wrth y porthor. Camgymeriad hawdd i'w wneud, fel y gwelwch o'r cap y mae'r esgob yn ei wisgo yn y llun.

Bydd yr ail ran yr erthygl afaelgar hon yn y rhifyn nesaf o'r Tyst.

Noel Davies



Yr Adran Gydenwadol

Dydd Cofio'r Holocaust 2022

Fe fydd seremoni'r Deyrnas Unedig ar gyfer Dydd Cofio'r Holocaust yn cael ei ffrydio'n fyw nos Iau, 27 Ionawr, am 7yh. Gallwch gofrestru isod ar gyfer ymuno ar lein.

Cofrestru

Am 8yh fe'ch gwahoddir i baratoi ar gyfer Goleuo'r Tywyllwch gydag aelwydydd ar draws y Deyrnas Unedig drwy osod canhwylau'n ddiogel yn eich ffenestri er mwyn:

- cofio'r rhai a lofruddiwyd oherwydd pwy oedden nhw;
- sefyll yn erbyn rhagfarn heddiw ym mhob man.

Am ragor o wybodaeth, ewch i:

[Holocaust Memorial Day Trust | UK Holocaust Memorial Day: 2022 Ceremony \(hmd.org.uk\)](https://www.hmd.org.uk/)

Iacháu cenhedloedd ar ôl hil-laddiad a gwrthdaro – fesul calon

Wrth inni agosáu at ddiwrnod coffáu'r Holocaust, ar 27 Ionawr, a'r chwe miliwn o lldewon a lleiafrifoedd eraill a ddifawyd yn systematig yn ystod yr Ail Ryfel Byd, fe hoffem allu dweud na fu unrhyw hil-laddiad arall ar ôl y digwyddiad erchyll hwnnw. Yn anffodus, nid yw hynny'n wir. Ni wireddwyd y gri 'byth eto', a hyd heddiw mae pobl yn dal i brofi cyflafanau erchyll mewn rhai rhannau o'r byd.

Yn fuan ar ôl hil-laddiad Rwanda yn 1994, fe wnaeth Duw fy arwain yn annisgwyl i weithio yno, gan geisio helpu'r eglwys i ddod yn gyfryngau iachâd a chymod yn eu hardaloedd eu hunain. Ers hynny mae drysau wedi agor i lawer o wledydd eraill hefyd lle mae gwrthdaro a rhaniadau, a chefais y ffraind fawr o weld Duw yn gweithredu – gwyrthiau o iachâd a thrawsnewidiad mewn unigolion ac mewn cymunedau. Datblygodd y broses hon yn weithdy tri diwrnod bellach, â'r enw 'Iacháu Calonnau, Trawsnewid Cenedloedd'. Credwn mai dim ond pan fydd calonnau wedi'u gwella, un ar y tro, y gall trawsnewid cenhedloedd ddigwydd.

Yn ein gweithdai, awn ar daith iachusol hefo'n gilydd i ddarganfod pwrpas gwreiddiol Duw ar gyfer y ddyndoliaeth. Profiad i'r galon ydyw, yn hytrach na gwybodaeth i'r meddwl. Cawn gyfle i rannu ein poen fel gwahanol grwpiau a'i rhoi i gyd ar y groes. Y nod yw y bydd pawb yn gadael y gweithdy wedi cael eu caru a'u hanrhydeddu ac yn dathlu undod mewn amrywiaeth a gallu bendithio'i gilydd. (Bydd gweithdy o'r fath yn cael ei gynnal yng nghapel Caersalem, Caernarfon, 16-19 Mehefin.)

Pery'r gwaith o wella yn Rwanda hyd heddiw, a'r weinidogaeth hon yno yn cael yr enw Rabagirana, sy'n golygu Cod a Llewyrcha! (Cymerwyd o Eseaia 60:1-3.) Rai blynyddoedd yn ôl, fe wnaeth Duw ein harwain i ddechrau Ysgol Ryngwladol dros Gymod yn Rwanda. Ers hynny, mae llawer o bobl o wahanol rannau o'r byd wedi dod i ddysgu o brofiad Rwanda, ac wedi dychwelyd i ddechrau lledaenu'r neges yn eu gwledydd eu hunain.

Mae gweinidogaethau Rabagirana bellach yn cael eu harwain gan grŵp o



Pobl Pentref Undod 'Ubumwe' yn plannu coed.

bobl ifanc angerddol a medrus iawn sydd wedi ymrwmo i sicrhau y bydd dyfodol Rwanda yn wahanol i'r gorffennol. Maent wedi canolbwyntio'n arbennig ar bentref sy'n agos at eu canolfan gymodi ychydig y tu allan i'r brifddinas – a adnabyddid fel y pentref mwyaf rhanedig yn Rwanda i gyd! Roedd yna oroeswyr hil-laddiad a throeddwyd wedi eu ryddhau o'r carchar, cyn-aelodau o'r fyddin oedd yn cael eu casáu gan bawb, rhai wedi'u halltudio o wledydd eraill a'u hystyried yn estroniaid, Batwa (pygmies), pobl y cyrion yn wrthoddedig gan bawb. Roedd y rhain i gyd yno a'r pentref cyfan yn llawn casineb, ac ni allai unrhyw un o'r llywodraeth aros yno.

Erbyn hyn mae yna newid mawr, ac fe'i gelwir yn Ubumwe – Pentref Undod! Ar ôl profi iachâd a maddau i'w gilydd, mae pobl yn cyd-fyw mewn cytgord, gan gefnogi ei gilydd mewn sefyllfaoedd anodd. Maent wedi trefnu eu hunain yn ddeg grŵp undod sy'n cyfarfod yn wythnosol i weddio gyda'i gilydd ac astudio deunyddiau cymod. Maent hefyd wedi trefnu clybiau ieuencid, timau pêl-droed, cynlluniau cynilo, ac ati. Ni all y llywodraeth greu'r newid sydd wedi digwydd ac maent wedi ei enwi'n lleoliad i dwristiaid ymweld ag ef er mwyn derbyn anogaeth! Dyna allu'r Efengyl, ac i Dduw y bo'r holl ogoniant.

Ar hyn o bryd mae gwlad Ethiopia, sy'n profi gwrthdaro difrifol, yn ein meddyliau. Mae dyn ifanc o Ethiopia o'r enw Desalegn, a fynychodd ein Hysgol Cymod Ryngwladol yn Rwanda yn 2018, wedi bod yn cynnal gweithdai Iacháu Calonnau, Trawsnewid Cenedloedd ar ei ben



Desalegn o Ethiopia



Dr Rhiannon Lloyd



ei hun mewn gwahanol rannau o'r wlad. Ym mhob gweithdy bu dagrau o edifeirwch wrth i arweinwyr eglwysig ymrwmo i bregethu cariad yn hytrach na chasineb. Mae angen gwneud llawer mwy, a'r cynllun yw cynnal ysgol gymodi yno cyn gynted ag y bydd yn ddiogel i wneud hynny, ym mis Chwefror, gobeithio, fel y gellir hyfforddi llawer mwy o dimau. Mae ysgol gymodi yn Ne Swdan hefyd yn cael ei chynllunio ar gyfer mis Mawrth.

Rwy'n ddiolchgar iawn fod yna dîm cynyddol o hwyluswyr rhyngwladol abl sydd wedi ymrwmo i fod yn gyfryngwyr iachâd a chymod wrth i ragor o ddrysau agor i'r gwaith hwn. Nid oes yn rhaid i mi ymwneud â phopeth mwyach, a dyna fel y dylai fod.

Yr her fwyaf, eleni efallai, fydd y gweithdai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer UDA yn y gwanwyn a'r hydref. Mae anghydraddoldeb, rhaniadau ac anghyfiawnder yn rhemp yno, ond fydd helpu pobl i ollwng gafaet ar eu rhagfarnau a pherchnogi'r anghyfiawnder ddim yn hawdd. Mae'n rhaid i bob newid ddechrau yn ein meddyliau, a dyna pam rydyn ni'n cael ein hannog yn Rhufeiniaid 12:2 i gael ein trawsnewid trwy adnewyddiad ein meddyliau, a pheidio â chydymffurfio â meddylfryd y byd. Boed hynny'n wir amdanom ni i gyd yn ystod y flwyddyn i ddod.

Dr Rhiannon Lloyd
Llandudno

[Dilynwch y dolen isod am ragor o wybodaeth]

[Healing the Nations / Iacháu'r Cenedloedd – galluogi'r eglwys i fod yn gyfrwng iachâd a chymod yng nghanol gwrthdaro ethnig](https://www.healingthenations.org.uk/)



EGLWYS
BRESBYTERAIDD
CYMRU
COLEG Y BALA



Swydd Is-warden

Mae Coleg y Bala yn edrych i sicrhau aelod newydd i'n tîm a fydd yn gweithio ar y cyrsiau a gynhelir yn y ganolfan, yn cynorthwyo'r rheolwyr wrth ofalu am ymwelwyr preswyl a dyddiol ac yn ymestyn darpariaeth y Coleg yn y gymuned a'r eglwysi cyfagos.

Lleoliad: Coleg y Bala a bydd yn ofynnol i'r Is-warden fyw ar y safle yn y fflat sydd wedi'i darparu yn rhydd o unrhyw gostau i'r gweithiwr.

Oriau: 35 awr yr wythnos

Cytundeb: 3 blynedd, gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf.

Cyflog: £21,638 - £23,775 (Pwyntiau 18-22), ynghyd â fflat ddi-rent a chyfle i ymuno â Chynllun Pensiwn EBC.

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirida boddhaol.

I gael disgrifiad swydd a ffurflen gais, cysylltwch â Hedd Morgan, rhif ffôn: 02920 627465 neu e-bost:

Hedd@ebcpcw.cymru

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol a Chymraeg ar gyfer y swydd hon.

Dyddiad Cau: 5 o'r gloch, Dydd Llun, 31 Ionawr 2022

EGLWYS BRESBYTERAIDD CYMRU

Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain

Swydd Galluogwr Cenhadol Sir y Fflint



Mae Henaduriaeth y Gogledd-ddwyrain yn chwilio am berson egniol a brwdfrydig i weithio gydag eglwysi'r henaduriaeth i ystyried eu cyfleon i wasanaethu, i genhadu ac i fod yn gyfrifol am hyrwyddo gwaith plant ac ieuencid a theuluoedd yn y cylch, fe fydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gweithio tuag at greu hwb cenhadol i wasanaethu'r gymuned drwy ystyried llesiant gwahanol rannau ohoni.

Oriau: 35 awr yr wythnos, ond gellir ystyried rhannu swydd a chynnwys oriau ychwanegol wrth wneud hynny

Cytundeb: 3 blynedd yn y man cyntaf gyda'r 6 mis cyntaf yn gyfnod prawf

Cyflog: Graddfa 30 (£28,049) a chyfle i ymuno â chynllun pensiwn EBC

Lleoliad: Cylch yr Wyddgrug a Sir y Fflint

Mae'r swydd hon yn amodol ar ddatgeliad DBS manwl a dau eirida boddhaol.

Mae gofyniad galwedigaethol Cristnogol ac iaith Gymraeg yn berthnasol ar gyfer y swydd hon.

Am fwy o wybodaeth, ac am ffurflen gais, cysylltwch ag: e-bost – Hedd Morgan, hedd@ebcpcw.cymru ffôn – 07815960439

Dyddiad cau: 11 Chwefror 2022 am 4 o'r gloch.

Dyddiad y cyfweiliad: 17 Chwefror

'A'r mwyaf o'r rhai hyn...'

Cariad mam yw'r cyntaf brofwf,
cysur côl fel siôl drysorwn,
tra bydd hi'n ein swatio'n dyner
ffoi wna pryder, ymdawelwn.

Cariad teulu clòs a ffrindiau
ddaw i'n lapio, llywio'n dyddiau,
nes y down yn fwy hyderus
i gamu'n fentrus draw o'n gwreiddiau.

Cariad cymar, fel adenydd,
ddaw gan siffrwd alaw newydd,
hedfan wnawn rhwng haul a chawod,
cynnig cysgod wnawn i'n gilydd.

Ond pris cariad yw'r hen hiraeth
ddaw pan gollwn law cwmni'eth,
torri'r cylch wna'r ffârwel creulon,
llenwi'r galon ag amheuaeth.

Treigla'r oriau, daw edwino,
ond mae Cariad nad yw'n llacio,
Duw biau'r llaw na wna ein gollwng
mewn argyfwng – diolch iddo!

Cerdd gomisiwn o waith Annes Glynn ar y thema 'Cariad' a ymddangosodd yn rhifyn Ionawr/Chwefror 2022 o'r cylchgrawn *Cristion*. Ceir cerdd gyffelyb ym mhob rhifyn o *Cristion*, pob un ohonynt â llun cefndir hynod drawiadol.

Tybed ydych chi'n derbyn *Cristion* yn rheolaidd? Mae modd prynu copi yn eich siop Gymraeg leol, neu gellir archebu copi drwy'r post yn uniongyrchol am flwyddyn gyfan am £15, yn cynnwys cludiant. Mae modd archebu copiau ar gyfer yr eglwys yn ogystal, a hynny ar delerau ffafriol. Am fwy o wybodaeth, ewch i wefan www.cristion.net

S4C

Dechrau Canu, Dechrau Canmol

Sul, 30 Ionawr, am 7:30yh (ailddarlliedir y Sul canlynol am 11:30yb)

Nia Roberts fydd ar daith, gan gychwyn yn un o addoldai pwysicaf Cymru, Eglwys Gadeiriol Llandaf, i Benrhys yng Nghwm Rhondda, gan ddadorchuddio cyfrinachau ar hyd ffordd y pererindod. Cawn ganu grymus o bob cwr o Gymru a mwynhau dehongliad Kizzy Crawford o 'Pererin Wyf'.



Canladaeth y Cysegr

Sul, 30 Ionawr, 7:30yb a 4:30yp

Euros Rhys Evans sy'n cyflwyno cyfres am aelodau o'r un teulu sydd wedi gwneud cyfraniad i'n hemynyddiaeth. Y cefndryd Watcyn Wyn a Ben Davies sy'n cael sylw heddiw.

Oedfa Radio Cymru

Sul, 30 Ionawr, 12:00yp

Gwasanaeth yng ngofal Ceri Frances, Maidenhead.

Tywysog Tangnefedd mewn Byd o Ryfeloedd

Fel deunydd ar gyfer myfyrdod personol ac astudiaeth grŵp, byddwn yn parhau hyd y Grawys â'r myfyrdodau o'r gyfrol *The Prince of Peace in a World of Wars* gan David Kerrigan.

Rhoi theori ar waith

12 Heddwch, rhyw, hil a safle

Darllen: Galatiaid 3:23-9

Nid oes rhagor rhwng Iddewon a Groegiaid, rhwng caeth a rhydd, rhwng gwryw a benyw, oherwydd un person ydych chiwi oll yng Nghrist Iesu.

Y tro diwethaf imi edrych, roedd yna Iddewon a Groegiaid o hyd, roedd yna gaethion o hyd (er bod caethwasiaeth yn anghyfreithlon), a dwi'n sicr imi weld merched a dynion yn cerdded y strydoedd hefyd. Felly, beth oedd Paul yn ei olygu wrth 'nid oes rhagor'?

Tra bu'r eglwys dros y canrifoedd yn euog o ragfarn hiliol, caniatáu caethwasiaeth a darostwng merched, nid oes gan yr efengyl le ar gyfer y pethau hyn. Er ei methiannau i gyd, mae'r eglwys ar ei gorau yn lladmerydd dros urddas i bawb – dim ffafiaeth, dim dinasyddion ail ddsbarth, dim pobl yn llai eu gwerth nag eraill. Ni fyddai'n anodd, hyd yn oed heddiw, dod o hyd i dystiolaeth sy'n dangos ein bod yn syrthio'n brin o'r nodau yma, ond mae sefyll dros y pethau hyn, codi llais a gweithredu, yn rhan o'n gwaith fel disgyblion. Pam hynny? Am eu bod yn sefyll dros galon Duw, gerbron yr hwn, un dydd, pan fydd y weledigaeth Feiblaidd o shalom yn cael ei chyflawni, y bydd pobl o bob llwyth ac iaith yn sefyll fel un ac yn ei glodfori (Datguddiad 7:9). Fydd yna ddim ni a nhw, dim dosbarth busnes ac economi, dim system lwythol (*caste*) a dim un estron.


Dyna'r weledigaeth, ond beth am y realaeth? Cafodd hanes y ddynoliaeth ei lesteirio o'r dechrau gan drais – corfforol, emosiynol, seicolegol ac ysbrydol – yn erbyn y rhai yr edrychwyd arny'n nhw fel rhai gwahanol. Ymddangosodd y trais hwnnw ar ffurf rhagfarn, erledigaeth, cymryd mantais, casineb, aflonyddu, homoffobia, casineb at wragedd a senoffobia. Nid rhestr braf yw hon a dydy byw yn ei chanol ddim yn braf chwaith. Mae cydnabod hyn a mynd i'r afael ag ef yn fater allweddol os ydym ni eisiau i ddynion a merched brofi heddwch.

Er mwyn ein hysbrydoli, mae gennym weinidogaeth Iesu, wrth gwrs, a nodweddiad gan y natur gynhwysol, radical a ddangosodd at bawb y byddai eraill yn eu heithrio. O ran merched, roedd ei berthnasau yn anghyffredin o'u cyfnod. Fe

iachaodd ferch ar y Saboth ac, yn wyneb gwrthwynebiad yr arweinwyr crefyddol, fe'i galwodd yn 'ferch i Abraham' (Luc 13:16), teitl o anrhydedd a'i gosodai ar yr un gwastad â dynion Iddewig, y byddid yn aml yn eu galw yn feibion Abraham. Mae'n siarad â gwraig o Samaria, ac fe ddaw yn dyst i Grist, gan arwain eraill i ffydd ynddo (Ioan 4:1-42). Mae'n achub gwraig rhag ei llabyddio (Ioan 8:3-11), gan danlinellu bod y rhai a'i barnai hi yn bechaduriaid eu hunain. Roedd gan Iesu wragedd ymhlith ei ddisgyblion, fel y dangosir mewn adnodau fel Mathew 12:49: 'A chan estyn ei law at ei ddisgyblion dywedodd, "Dyma fy mam a'm brodyr i.'" Roedd Mair a Martha ymhlith dilynwyr agosaf Iesu, nid yn unig yn cael eu dysgu ganddo, ond yn gweini arno hefyd. Cefnogai wragedd eraill ef yn ariannol (Luc 8:2-3).

O blith y cyfan mae dwy esiampl yn sefyll allan. Yn gyntaf, mam Iesu, Mair, a gafodd ei hanrhydeddu ymhlith gwagedd pob cyfnod gan mai hi a gariodd Fab Duw yn ei chroth, a'i helpodd ar y daith i fod yn oedolyn ac a ddygodd boen ei weld yn cael ei groeshoelio. Yn anffodus, fe gafodd rôl arbennig Mair ei dal weithiau ynghanol ymrafaelion rhwng traddodiadau eglwysig gwahanol, ond ei heiddo hi yw'r lle blaenaf oherwydd ei rhan yn stori'r achub. Yn ail, fel y tystir gan yr efengylau i gyd, gwagedd oedd y tystion cyntaf i atgyfodiad Iesu. Adeiladwyd tystiolaeth yr Eglwys Fore ar eu tystiolaeth hwy, ac mewn merched fel Priscila (Actau 18:26) a Junia, neu Junias (Rhufeiniaid 16:7), a elwir 'yn amlwg ymhlith yr apostolion', nid oes gennym ni ddim lle i weld merched fel dim llai na chyd-weithwyr cyfartal dros yr efengyl. Felly, mae'n rhan o'n mandad ninnau y tu hwnt i'r eglwys y dylem wneud yr hyn a allwn i herio anghyfiawnder rhwng y rhywiâu sydd mor amlwg yn ein cymdeithas.

Gellid dweud yr un peth am hiliaeth a senoffobia. Maen nhw'n fyw ac yn iach heddiw, fel y dangosir yn yr iaith a ddefnyddir amffoaduriaid ('Maen nhw'n dod mewn heidiau tuag atom'), yr atgasedd a ddangosir at Foslemiaid, a'r anghyfiawnder sy'n dal i gael ei brofi gan gymunedau du a rhai o leiafrifoedd ethnig. Mae'r rhain hefyd yn faterion sy'n perthyn i'r efengyl – a'r un mor berthnasol i ni pan maen nhw'n digwydd mewn gwledydd eraill. Mewn gwrthgyferbyniaeth, fe welwn yn Iesu un a anrhydeddodd ac a dderbyniodd Samariaid



(Ioan 4), er yn groes i ddaliadau cyffredin y cyfnod, gan eu portreadu fel y bobl dda (Luc 10:33). Yn yr un modd, fe ddylem ninnau fod yno lle gwelwn leiafrifoedd yn cael eu trin yn rhagfarnllyd mewn unrhyw ffordd.

Un peth yw bod yn brotestiwr am y materion hyn, peth arall yw bod yn esiampl byw. Gall ein heglwysi fod yn union hynny – ymgorfforiad o ffordd o fyw mewn cymuned lle nad oes gwahaniaethu anghyfiawn rhwng Iddew a Groegwr, caeth neu rydd, gwryw na benyw. Gyda chymaint o'n heglwysi'n dod yn gymunedau o bobl o wahanol genhedloedd, dylem sicrhau bod yr amrywiaeth yma'n cael ei gynnwys mewn addoliad ac arweinyddiaeth. Dylai gwŷr a gwagedd fod yn amlwg mewn arweinyddiaeth hefyd, gyda'r lleisiau gwahanol hyn yn cyfrannu at fynegiad gwirioneddol o eglwys o amrywiol leisiau.

Sut mae hyn yn berthnasol i wneud heddwch? Pan ysgrifennodd Paul at yr Effesiaid, fe gyfeiriodd at yr efengyl yn nhermau chwalu gwahanfuriau rhwng Iddewon a Groegiaid:

Oherwydd ef yw ein heddwch ni. Gwnaeth y ddau, yr Iddewon a'r Cenedloedd, yn un, wedi chwalu trwy ei gnawd ei hun y canolfur o elyniaeth oedd yn eu gwahanu ... Ac felly, i wneud heddwch, creodd o'r ddau un ddynoliaeth newydd ynddo ef ei hun ... Felly, nid estroniaid a dieithriaid ydych mwyach, ond cyd-ddinasyddion â'r saint ac aelodau o deulu Duw. (Effesiaid 2:14-15, 19)

Mae gwneud heddwch yn mynnu ein bod yn symud pob rhwystr sydd rhyngom.

I weld y cyhoeddiad digidol Cenn@d yn llawn, dilynwch y ddolen hon: www.cennad.cymru

(Cyhoeddir Cenn@d ar ran Undeb Bedyddwyr Cymru ac Eglwys Bresbyteriaid Cymru, a rhennir tudalennau cydenwadol y cyhoeddiad ag Undeb yr Annibynwyr Cymraeg)

Melys Moes Mwy

Mae'n siŵr i ni gyd fwyta tipyn o siocled dros y Nadolig. Tybed a ydych chi'n gyfarwydd â siocled Tony's Chocolonely? Cychwynnwyd y cwmni gan ddyd o'r enw Teun van de Keuken yn 2005 er mwyn cynhyrchu a gwerthu siocled Masnach Deg ond yn ychwanegol at hynny hefyd, siocled oedd yn rhydd rhag caethwasiaeth.



Anfadwaith

Newyddiadurwr oedd Teun ac yn 2003, bu'n ymchwilio i'r defnydd o gaethweision – nifer ohonynt yn blant – yn y diwydiant siocled ac fe gafodd ei synnu'n llwyr o weld hyd a lled yr arfer anfad hwn. Yn amlach na heb, caethweision fyddai'n casglu'r cnau coco ac roedd y rhan fwyaf o'r bariau siocled a werthwyd yn yr archfarchnad yn defnyddio siocled a ddefnyddiodd gaethweision i'w greu. Aeth ati i gysylltu â'r cwmnïau siocled mawrion er mwyn trafod y sefyllfa, ond doedd yr un ohonynt am wybod. Felly, fe benderfynodd bod yn rhaid iddo yntau dorchi llewys a gwneud rhywbeth am y peth ei hun.

Erllyn

Yn gyntaf, bwyttodd Teun ddau far o siocled a chyflwyno'i hun i'r awdurdodau fel 'troseddwr siocled'. Gwrthododd yr erlynydd cyhoeddus ei erlyn, felly gofynnodd i bedwar cyn gaethwas o'r Arfordir Ifori i weithredu fel tystion yn ei erbyn ef a'r 2,316 bwyttawr siocled arall a ymunodd gyda Teun yn ei ymgyrch yn y cyfamser. Ar 29 Tachwedd 2005, pan oedd Teun yn aros am ganlyniad yr achos, penderfynodd arwain drwy esiampl a chynhyrchu 5,000 bar o siocled Masnach Deg. Dyna pryd y ganed Tony's Chocolonely. O ble ddaeth yr enw? Roedd Teun yn teimlo ei fod yn llais unig yn y diwydiant cynhyrchu siocled ac felly drwy gyfuno'r elfennau 'choco' a 'lonely', fe grëwyd yr enw cyfansawdd, Chocolonely. A phwy yn gwmws yw Tony? Wel, ffurf Seisnig ar

Teun yw Tony. Felly Teun yw Tony, a Tony yw Teun.

Torri'r Patrwm

Erbyn heddiw mae cynnyrch Tony's Chocolonely i'w gael drwy'r byd i gyd. Dechreuwyd gwerthu'r siocled ym Mhrydain yn 2019. Ac er bod y cwmni'n llwyddiannus ac yn gwerthu siocled o bob maint mewn pob math o flasau hyfryd, mae'r busnes o godi ymwybyddiaeth am yr annhegwch a'r anghydraddoldeb sy'n bodoli yn y diwydiant siocled yn un hollol ddifrifol. Mae bariau siocled arferol yn rhannu siocled mewn i ddognau cyfartal ond gyda siocled Tony's Chocolonely mae'r patrwm torri'n anghymesur ac anghyfartal er mwyn dangos nad yw bywyd yn y maes siocled yn gyfartal nac yn gyfiawn. Y gobaith yw y bydd cynhyrchu a gwerthu siocled yn y fath fodd yn procio'r cydwybod ac y bydd mwy a mwy o bobl yn trafod y sefyllfa ac yn mynnu newid ac yna y bydd y newid hwnnw'n digwydd.

Blwch gwag

Bu Tony's Chocolonely yn y newyddion cyn y Nadolig oherwydd eu calendar Adfent. Tu ôl i bob drws roedd darn bychan o siocled, heblaw am tu ôl i ddrws 8 Rhagfyr. Roedd y drws hwnnw'n wag – dim siocled. Roedd hyn yn hollol fwriadol oherwydd bwriad Tony's Chocolonely oedd dangos unwaith yn rhagor yr anghydraddoldeb sydd yn y byd a bod rhai pobl yn mynd heb ddim ac yn dioddef tlodi affwysol. Fe gafwyd cwynion am y drws gwag gan rai rhieni oherwydd fe siomwyd eu plant, ond ar y cyfan, derbyniwyd yr ymgyrch yn dda, a gwelwyd ei fod yn symbyliad ardderchog i drafod y pwnc anodd hwn o fewn teuluoedd.



Gwallgofrwydd difrifol

Ar hyn o bryd, a hyd at ddiwedd Ionawr eleni mae modd prynu'r hyn sy'n cael eu galw'n Conversation Bars gan y cwmni,

parhad ar y dudalen gefn

Argyfwng Affganistan

Ar y newyddion yr wythnos hon cafwyd adroddiadau digalon am y sefyllfa enbydus sy'n datblygu yn Affganistan. Wrth i'r gaeaf ddynesu mae'r tymheredd yn gostwng ac y mae miliynau o bobl yn straffaglu i ymdopi gyda newyn ac oerfel.

Oherwydd gwrthdaro cyson, newid yn y llywodraeth a'r sychder gwaethaf mewn 27 mlynedd y mae'r wlad ar drothwy trychineb enfawr. Mae'r economi wedi dadfeilio, prisiau'n cynnyddu ac nid oes gan 95% o'r boblogaeth ddigon o fwyd. Mae'r gwasanaeth iechyd yno 'n gwegian ac y mae ysbytai'n brwydro i drin mamau a phlant sydd ar eu cythlwg oherwydd diffyg moddion a chyflenwadau.

Mae'r elusennau sy'n cydweithio gyda DEC a phartneriaid lleol ym mhob rhanbarth o Affganistan yn dweud fod adnoddau sylfaenol bellach yn cyrraedd y bobl fwyaf anghenus. Maent yn darparu bwyd i deuluoedd newynog ac adnoddau iechyd er mwyn cynorthwyo'r rhai sy'n dioddef o ddiffyg maeth.

Hoffem eich gwahodd a'ch annog i gyfrannu yn hael tuag at DEC sy'n cael ei gefnogi gan Gymorth Cristnogol. Gellir gwneud hynny yn rhwydd ar eu gwefan nawr <https://www.dec.org.uk/>

- Gall £30 drin 3 phlentyn sy'n dioddef o ddiffyg maeth am 3 wythnos.
- Gall £50 ddarparu plancedi ar gyfer 10 person dros y gaeaf.
- Gall £100 ddarparu bwyd i deulu am 3 mis.



Barn Annibynnol

Colli Ffydd

Mae'r Nadolig wedi'n gadael, a bellach ry'n ni wedi bod yn gaeth yng ngafael Ionawr oer a gwlyb yn ei dro ... a'r pandemig. Ai hyn sy'n gyfrifol am fod cymaint o sôn fod pobl yn colli ffydd? Ac wedyn beth am y cawdel gwleidyddol, a'r amgylchedd?

Wedi meddwl, nid cyflwr newydd yw hwn, oherwydd mae wedi codi ar hyd y blynyddoedd gyda phob Rwanda, Srebrenica, Aberfan a phob tro daw amgylchiadau cystuddiol a galarus i'n cyfeiriad.

Felly beth am hel meddyliau ar her y drwg a'r poenus?



Problem y drwg

I ddechrau, credaf fod rhaid cychwyn wrth gydnabod nad yw dewis y testun hwn yn ddim llai na bod yn hurt. Mae problem y drwg yn hen, hen problem, ac o leiaf cyn hyned ag ysgrifennu llyfr Genesis. Ond nid yr Iddew yn unig sydd wedi gorfod brwydro â'r broblem. Mae'r theodisi* yn hen, hen broblem, ac yn dal yn heriol hyd heddiw, oherwydd os yw Duw yn holl nerthol a'r byd yn llawn och a gwae, sut allwn ddweud fod Duw yn dda? Oes 'na ateb?

Cofiaf am wraig fu'n hir ofalu am ei gŵr. Roedd bywyd yn boenus ac yn amlwg nid oedd gwella iddo. Dywedodd iddi'r noson cynt dreulio'r noson gyfan yn gweddïo, ac yn y diwedd iddi golli ei hamynedd a chrio ar Dduw, 'Sigla dy stwmps, mae hyn i gyd tu hwnt i jôc.' Gallwn feddwl fel mynnwn, ond gwnaeth dim ddod o'r weddi heblaw ei bod hi, efallai, wedi cael ryw ryddhad!

Optimistiaeth?

Ambell waith cawn glywed pobl yn cynnig ateb i'r broblem fel, er enghraifft, trwy geisio gwahanu rhwng ffydd ac ofergoeliaeth gwag. Dro arall bydd rhywun yn gweld ateb wrth wawdio optimistiaeth ddi-sail. Y drafferth yw bod

ofergoeliaeth un yn grefydd i rywun arall, ac mor aml nid oes modd tynnu llinell rhyngddynt. Ar ben hyn, mae'n syndod pa mor aml clywn optimistiaeth ddwl yn cael ei gyfrif fel rhinwedd.

Wrth gwrs, mae rhai yn credu eu bod wedi delio â'r broblem wrth fod yn slic ac arwynebol, fel troi'r cwestiwn a gofyn 'colli ffydd mewn beth?' ac yna ychwanegu ar frys, 'dydw i ddim yn credu yn y Duw hwnnw chwaith.' Hen ffordd arall mas o'r broblem yw cynnig fod y ddynoliaeth wedi ei chyfoethogi â rhyddid ewyllys. Ond, pa dad cyfrifol fyddai'n gadael i blentyn chwarae â bom?

Ond, mae'r broblem yn bwysig oherwydd os yw person yn dweud 'rydw i wedi colli ffydd', nid mater o droi'n atheist yw hi – gall colli ffydd olygu bod canol bywyd wedi troi'n dywyll, yn wag a digyfeiriad. Mae'n gyflwr dynol enbyd a pheryglus, sy'n galw am fwy na dadlau brwd.

Wyneb Duw

Beth yw her fawr hyn i'n heglwysi, ac i ninnau fel unigolion? Onid yw'r eglwysi i fod yn oleuni na ellir ei guddio? I fod yn ffatri i gynhyrchu daioni'r Iesu? Credaf ein bod yn rhy barod i arbenigo ar 'y mawr a'r tragwyddol' ac yn amharod i

ddweud, fel yn stori Moses, 'yr ydwyf yr hyn ydwyf' ac i dderbyn bod y 'Bod Mawr' yn bodoli o fewn ei anferthedd dirgel. Yr hyn sydd gan yr eglwys i ddal ato yw bod Iesu'n wyneb dynol i'r Duw Anfeidrol, a'i fod yn amlygu cariad synhwyrol, maddeuant diderfyn a thrugaredd di-ildio. Felly o dan ei ddylanwad, mae'r eglwys i lewyrchu daioni'r Iesu, i fod yn drysor yn y llaid, yn gannwyll yn y tywyllwch, yn barotach i glosio nac i wrthod, nid i fodloni ar ddefodau ond i frysio i sychu dagrau. Onid dyna fan cychwyn yr ateb i'n problem?

Mae perthyn i eglwys yn fraint ac yn her fendigedig, os yw hi mewn gwirionedd yn eglwys Gristnogol. Gwae ni lle mae halen wedi colli ei flas, sef pan fo'r eglwys yn bodloni yn unig ar chwarae crefydd trwy gynnal defodau. Nid oes gwacter ble mae cariad, a ble mae cariad mae cynhesrwydd a daioni!

Eirian Rees

(*Theodiciaeth yw'r ymgais i amddiffyn Duw yng nghwyneb y drygioni sydd yn y byd.)

(Nid yw cynnwys y Barn Annibynnol o reidrwydd yn adlewyrchu safbwynt Undeb yr Annibynwyr na'r tîm golygyddol.)

Allweddeiriau 3 Meseia

Rydym yn clywed y gair 'Meseia' yn aml yn y capel, ond beth yw ei ystyr? Daw 'Meseia' yn wreiddiol o'r gair Hebraeg mashîach sy'n golygu 'un sydd wedi ei eneinio.' Yn yr Hen Destament, roedd yn arfer 'eneinio' (Saesneg: *anoint*) pobl wrth eu hapwyntio i wasanaethu mewn swyddi penodol yn Israel. Yr hyn oedd 'eneinio' yn ei olygu oedd tywallt olew ar ben unigolyn mewn seremoni grefyddol arbennig. Yn Israel, roedd offeiriad (Leiticus 4:3), brenhinoedd (1 Brenhinoedd 1:45), a phroffwydi (1 Brenhinoedd 19:16) yn cael eu heneinio cyn iddynt gael eu hapwyntio. Roedd eneinio yn arwydd clir eu bod wedi'u neilltuo a'u dewis gan Dduw i gyflawni eu gwaith.



Crist

Y cyfieithiad Groeg o'r gair mashîach yw Cristos neu 'Crist'. O'r gair hwn, wrth gwrs, y cawn 'Iesu Grist' yn Gymraeg. Nid cyfenw Iesu yw 'Crist', ond ei deitl. Mae 'Iesu Grist' yn golygu 'Iesu, y Crist', 'Iesu, y Meseia', neu – i'w roi mewn geiriau mwy llythrennol – 'Iesu, yr un sydd wedi ei eneinio.'

Addewid Duw

Pam mai hwn yw teitl mwyaf cyffredin yr Arglwydd Iesu yn y Testament Newydd? Wel, trwy'r Hen Destament, roedd Duw wedi addo y byddai'n anfon Achubwr eneinio at ei bobl. Achubwr a fyddai hefyd yn frenin, yn broffwyd, ac yn offeiriad perffaith. Cyflawnwyd yr addewid hwn yn Iesu o Nasareth. Ef yw'r un sydd wedi ei eneinio - sydd wedi ei ddewis, ei benodi, a'i neilltuo gan Dduw - i achub pobl oddi wrth eu pechodau. Cyflawnodd y gwaith

rhyfeddol hwn trwy farw yn ein lle ar y groes a thrwy atgyfodi'n fuddugol ar y trydydd dydd. "Ond beth amdanoch chi?" meddai. "Pwy dych chi'n ddweud ydw i?" Atebodd Pedr, "Meseia Duw." (Luc 9:20)

Gwilym Tudur

Erthyglau, llythyrau at y Prif Olygydd:
Y Parchg Ddr Alun Tudur
 39 Dorchester Avenue, Pen-y-lan,
 Caerdydd, CF23 9BS
 Ffôn: 02920 490582
 E-bost: aluntudur@btinternet.com

Golygyddion
Y Parchg Iwan Llewelyn Jones
 Fronheulog, 12 Tan-y-Foel,
 Borth-y-gest, Porthmadog, Gwynedd,
 LL49 9UE
 Ffôn: 01766 513138
 E-bost: IwanLlew@aol.com

Alun Lenny
 Porth Angel, 26 Teras Picton
 Caerfyrddin, Sir Gâr, SA31 3BX
 Ffôn: 01267 232577 /
 0781 751 9039
 E-bost: alunlenny@hotmail.co.uk

Archebion a thaliadau i'r Llyfrfa:
Tŷ John Penri, 5 Axis Court, Parc
Busnes Glanyrafon, Bro Abertawe
ABERTAWA SA7 0AJ
Ffôn: 01792 795888
 E-bost: undeb@annibynwyr.cymru

Dalier Sylw!

Cyhoeddwr yr Adran Gydenwadol gan Bwyllgor Llywio'r Adran Gydenwadol ac nid gan Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Nid oes a wnelo Golygyddion Y Tyst ddim â chynnwys yr Adran Gydenwadol.

Melys Moes Mwy - parhad

sef cit sy'n cynnwys set o wahanol flasau o'u siocled ynghyd â pheycyn o gardiau i ysgogi sgysiau go iawn am y sefyllfa annheg ac i annog a datblygu'r empathi sydd ei angen arnom i greu byd tecach. Mae'n bryd ein bod ni'n trafod mwy ar anghyfiawnder yn y byd a'r modd y medrwn ni fel unigolion ddylanwadu ar bethau'n fyd-eang. Mi fedrwn ni gyd wneud gwahaniaeth. Pecynnir bariau siocled Tony yn atyniadol, maent yn defnyddio lliwiau trawiadol a ffont hwyliog sy'n edrych yn union fel tasai'r bariau wedi dianc o'r syrcau. Mae hyn oll yn dangos fod modd cael hwyl a thrafod rhywbeth difrifol a phwysig ar yr un pryd. Yn wir arwyddair y cwmni yw: 'Yn hollol wallgo am siocled, yn hollol o ddfiri am bobl.'

Ysgol Sul Tabernacl Pencader



Plant yr ysgol Sul fu'n cynnal yr oedfa Nadolig yn ardderchog yn y Tabernacl Pencader ar Sul 12 Rhagfyr 2021


DIOLCH AC ANRHEGU YN LIBANUS, GANLLWYD

Rhwng Dolgellau a Thrawsfynydd mae 'na bentref - sribyn o bentref a dweud y gwir, o'r enw 'Ganllwyd' neu 'Gianllwyd' ar lafar. Mae yma neuadd bentref brysur iawn, mewn cyfnod di-Covid felly; mae yma rai tai; ysgol, sydd wedi cau, gwaetha'r modd, yn ystod y blynyddoedd diwethaf ac y mae yma gapel, ac ie, un capel a'i enw'n Libanus, sydd reit ar ochr y briffordd. Dydi o ddim yn adeilad mawr, o bell ffordd, ond gydol y blynyddoedd mae'r eglwys sydd wedi cyfarfod yn yr adeilad wedi bod yn un fyw ac wedi magu sawl arweinydd a fu'n arwain nid yn unig yn Libanus ond mewn sawl ardal arall yng Nghymru. Un o'r rheiny oedd y Parchedig Robert Evans, fu'n weinidog yn yr Hendy, Pontarddulais a'r Hen Gapel, Llanbrynmair - tad Ifan Wyn a Robert Alun (R. Alun i ni).

Ymroi

Un o'r bobl dda hynny fu'n arwain yn yr ysgol Sul yn Libanus am flynyddoedd ac yn ysgrifennydd yr eglwys yn ystod y blynyddoedd

diwethaf oedd Mrs Gwen James. Yn un o Drawsfynydd, ar ei phriodas a Merfyn James, Llanfachreth yn 1961. Daethant i fyw i'r Brithdir, a thra buont yn y Brithdir am gyfnod o ddeng mlynedd, ni fu neb oedd yn fwy cefnogol i weithgarwch eglwys a chymuned na Gwen, a sonia Merfyn a hithau am y deng mlynedd yn y Brithdir fel pleser pur, ac yng nghapel y Brithdir o dan weinidogaeth y Parchedigion John Watkin, Gareth Morgan Jones a Meurwyn Williams.



Libanus

Ond yn 1971, a'r Parchedig Hywel Wyn Richards yn weinidog yno, fe symudon nhw i'r Ganllwyd ac ymaelodi yn Libanus, ac yn hanes Gwen yn arbennig, dyma gychwyn ar gyfnod o weithgarwch llawn yn yr eglwys a'r gymuned yno. Fel y crybwyllais bu'n athrawes ysgol Sul i laweroedd, ac yn rhan o bopeth yn y pentref. A phan ddaeth y Parchedigion Dorian Samson, Iwan Vaughan Evans a minnau yno'n weinidogion yn ein tro, ni chafodd yr un ohonom achos i newid ein meddyliau am Gwen; yr un oedd hi bob amser, yn llawn cefnogaeth, hwyl a charedigrwydd.

Yn ddiweddar, penderfynodd ymddeol o'i chyfrifoldebau fel ysgrifennydd yr eglwys, ac ni allai'r eglwys yn Libanus adael i'r flwyddyn 2021 fynd heibio heb gydnabod ei gwasanaeth, a gwnaed hynny mewn oedfa nos Sul, 12 Rhagfyr. Diolchwn i Dduw am weithgarwch Gwen a dymunwn fendith arni hi a Merfyn a gweddill y teulu am flynyddoedd eto.

Iwan Llewelyn